| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **15 GORFFENNAF, 2010** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Y PWYLLGOR CYNLLUNIO NEWYDD** |
| **ARGYMHELLIAD** | **1. Enwebu 15 aelod, yn unol â chydbwysedd gwleidyddol a chydbwysedd ardal ar y pwyllgor cynllunio newydd.<br>2. Cymeradwyo diwygiadau i'r Cyfansoddiad o ganlyniad i sefydlu'r pwyllgor newydd<br>3. Cymeradwyo lwfans cyfrifoldeb arbennig i Gadeirydd y pwyllgor** |
| **AWDUR** | **Dilys Phillips, Swyddog Monitro** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cyng. J R Jones, Uwch Arweinydd - Adnoddau** |

**Cefndir**

1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Prif Bwyllgor Craffu ar 23 Ebrill, 2010 ar Adolygu'r Pwyllgorau Cynllunio pryd yr argymhellwyd i'r Cyngor Llawn fabwysiadu un pwyllgor cynllunio sirol. Nodwyd y penderfyniad fel a ganlyn:-

   **"PENDERFYNWYD argymell y model arfaethedig ar gyfer un pwyllgor cynllunio i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn ym mis Mai, ond gan ychwanegu y dylai'r pwyllgor newydd fod ar sail cydbwysedd ardal, yn ogystal â chydbwysedd gwleidyddol, ac y bydd rhagdybiaeth o blaid cael trafod cais yn lleol."**

2. Cyfarfu'r Cyngor Blynyddol ar 13 Mai, 2010 a phenderfynwyd

   **"cymeradwyo argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu a mabwysiadu trefniant un pwyllgor cynllunio sirol i'r Cyngor yn unol â manylion yr atodiadau."**

3. Roedd yr atodiadau i'r adroddiad yn cynnwys model manwl ar gyfer gweithredu'r pwyllgor cynllunio newydd.

**Cydbwysedd gwleidyddol ac ardal**

4. 15 aelod fydd ar y pwyllgor newydd gyda'r cydbwysedd gwleidyddol wedi ei rannu rhwng y grwpiau gwleidyddol fel a ganlyn:-

   | | |
   |---|---|
   | Plaid Cymru | 7 |
   | Annibynnol | 4 |
   | Llais Gwynedd | 2 |
   | Democratiaid Rhyddfrydol | 1 |
   | Llafur | 1 |

5. Er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng yr ardaloedd roedd gofyn enwebu 5 aelod o bob ardal

6. Gan fod angen ceisio sicrhau cydbwysedd gwleidyddol a chydbwysedd rhwng y tair ardal daethpwyd i'r canlyniad mai'r ffordd decaf o enwebu aelodau ar gyfer y pwyllgor newydd fyddai gofyn i'r Grŵp Busnes ei drafod.

7. Cysylltwyd â'r grwpiau gwleidyddol i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan yr aelodau i fod yn aelod o'r pwyllgor newydd.

8. Cyfarfu'r Grŵp Busnes ar 8 Gorffennaf ac adroddir ar lafar ar ganlyniadau'r trafodaethau.

**Diwygiadau i'r Cyfansoddiad**

9. Er mwyn gweithredu penderfyniad y Cyngor a chaniatáu i'r pwyllgor gychwyn ar ei waith mae angen gwneud man ddiwygiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad.

| **Y rhan perthnasol o'r Cyfansoddiad** | **Effaith y diwygiad** |
|---|---|
| Erthygl 7.02 (b) | Cynnwys Y Pwyllgor Cynllunio yn y rhestr o bwyllgorau na all aelod o'r Bwrdd fod yn aelod ohonynt |
| Erthygl 8.03 a'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau (rhan CH) | Dileu'r cyfeiriad at y Pwyllgor Cynllunio Canolog. Cynnwys y pwyllgor newydd - Y Pwyllgor Cynllunio - gyda'r swyddogaeth o benderfynu ar faterion rheolaeth datblygu yn unol â chynllun dirprwyo manwl cynllunio. Cynnwys cymal yn dweud mai 15 aelod fydd i'r pwyllgor newydd, ar sail cydbwysedd ardal, ac na all unrhyw un ohonynt fod yn aelod o Fwrdd y Cyngor. |
| Erthygl 10.02 a'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau (rhan C) | Diwygio rôl y pwyllgorau ardal trwy ddileu cymal (iv) yn ymwneud a swyddogaethau rheolaeth datblygu |
| Yr atodiad i'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau | Diwygio rhan A o'r atodiad (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd Awdurdod) trwy roi Y Pwyllgor Cynllunio yn lle'r Pwyllgor Ardal fel y corff priodol |
| Rheol Gweithdrefn 21 | Paragraff (2)(ii) – dileu'r frawddeg olaf yn ymwneud a phwyllgor ardal<br>Paragraff (4) – ychwanegu mater rheolaeth datblygu i'r rhestr o eithriadau |
| Cod Ymarfer Cynllunio a Hawliau Dirprwyedig Swyddogion | Dileu paragraffau 2.4 – 2.6 yn ymwneud ag aelodau o'r pwyllgor sydd hefyd yn aelodau o gynghorau cymuned/tref<br>Dileu paragraff 4.1 – 4.2 yn ymwneud â lobio.<br>Dileu rhan 8 – Archwiliadau Safle a chynnwys yn ei le paragraffau 20 - 34 o'r model a gymeradwywyd gan y Cyngor<br>Dileu rhan 9 – Penderfyniadau'r Groes i Argymhelliad<br>Dileu rhan 10 - Rôl y Pwyllgor Cynllunio Canolog<br>Dileu rhan 12 – Hyfforddi<br>Dileu atodiad 2 – Protocol i'r Is-bwyllgor Ymweld Safle |
| Protocol ar gyfer Cynghorwyr | Cynnwys fel atodiad i'r Cod Ymarfer Cynllunio y protocol a gymeradwywyd gan y Cyngor |

**Cynllun Lwfansau Aelodau**

10. Mae gan y Cyngor hawl i dalu lwfans cyfrifoldeb arbennig i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio. O ystyried llwyth y gwaith argymhellir talu lwfans ar yr un raddfa â chadeiryddion y pwyllgorau craffu sef £4,546.

11. O ganlyniad i benderfyniad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ni fydd hawl i dalu lwfans i gadeirydd pwyllgor ardal wedi sefydlu'r pwyllgor cynllunio newydd. Dylid felly dileu cadeiryddion pwyllgorau ardal a chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Canolog presennol o'r rhestr o rai sy'n derbyn lwfansau cyfrifoldeb arbennig.

12. Argymhellir gweithredu'r newidiadau i'r cynllun lwfansau ym mis Hydref 2010 pan fydd y pwyllgor newydd yn cychwyn ar ei waith.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyngor Llawn:-

i. fabwysiadu cydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor Cynllunio newydd yn unol â pharagraff 4 uchod.

ii. awdurdodi'r Swyddog Monitro i benodi aelodau i'r pwyllgor newydd yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol a chydbwysedd ardal, yn ôl cytundeb y Grŵp Busnes (neu os na fydd cytundeb yn ôl y datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd gan aelodau'r Cyngor)

iii. ddiwygio'r Cyfansoddiad yn unol â'r tabl ym mharagraff 9 uchod

iv. gymeradwyo newidiadau i'r cynllun lwfansau aelodau fel a amlinellir ym mharagraffau 10 - 12 uchod.